OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 550

## Gorchymyn Proffesiynau Iechyd Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2004

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Proffesiynau Iechyd Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2004 a daw i rym ar 1 Ebrill 2004.

(2) Yn Gorchymyn hwn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall —

ystyr "cofnodion" ("*records*") yw unrhyw ddeunyddiau mewn pa bynnag ffurf neu gyfrwng sy'n cyfleu neu'n gallu cyfleu gwybodaeth ac y mae iddi strwythur wrth gyfeirio —

(a) at unigolion neu at feini prawf sy'n ymwneud ag unigolion, yn y fath fodd fel bod gwybodaeth benodol sy'n ymwneud ag unigolyn penodol ar gael yn hwylus; neu

(b) at unrhyw eiddo, hawliau neu rwymedigaethau gan y Cynulliad, yn y fath fodd fel bod gwybodaeth benodol sy'n ymwneud ag eiddo, hawliau neu rwymedigaethau ar gael yn hwylus;

ystyr "cyflogai perthnasol" ("*relevant employee*") yw person —

(a) na therfynodd ei gontract cyflogaeth â'r Cynulliad cyn y dyddiad trosglwyddo (boed drwy i hysbysiad ddod i ben, amser wedi dirwyn i ben neu fel arall): a

(b) a gafodd gynnig cyflogaeth gyda PIC ac sydd wedi derbyn y gyflogaeth cyn y dyddiad trosglwyddo;

ystyr "cynnwys" ("*contents*") yw unrhyw item neu eiddo o ba ddisgrifiad bynnag —

(a) sy'n eiddo'r Cynulliad yn union o flaen y dyddiad trosglwyddo; a

(b) sy'n bresennol yn neu ar y tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i hyn ar y dyddiad trosglwyddo;

ystyr "y Cynulliad" ("*the Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

" ystyr "dyddiad trosglwyddo" ("*operational date*") yw 1 Ebrill 2004;

ystyr "PIC" ("*HPW*") yw Proffesiynau Iechyd Cymru(**1**);

dehonglir "tir" ("*land*") yn unol ag Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978(**2**), ac eithrio y dehonglir bod unrhyw gyfeiriad at drosglwyddo tir yn rhinwedd y gorchymyn hwn yn cynnwys trosglwyddo unrhyw drwydded o dan gontract i ddefnyddio'r tir.

(3) Dehonglir bod unrhyw ddarpariaeth yn y gorchymyn hwn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, yn cynnwys cyfeiriad at drosglwyddo unrhyw hawliau a rhwymedigaethau gan y Cynulliad sy'n bodoli mewn perthynas ag eiddo o'r fath yn union o flaen y dyddiad trosglwyddo.

(4) Pan drosglwyddir eiddo, hawliau neu rwymedigaethau'r Cynulliad i PIC yn rhinwedd y Gorchymyn hwn, ymdrinnir ag unrhyw beth a wnaed gan neu mewn perthynas â'r Cynulliad mewn cysylltiad ag eiddo, hawliau a rhwymedigaethau o'r fath fel pe bai wedi ei wneud gan neu mewn perthynas â PIC.

(**1**) Sefydlwyd Proffesiynau Iechyd Cymru gan Orchymyn Proffesiynau Iechyd Cymru (Sefydlu, Aelodaeth, Cyfansoddiad a Swyddogaethau) 2004 O.S. 2004/551 (Cy.55).

(**2**) 1978 p.30.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*